**28.02.2023 – 14:00**

Ystafell Gynadledda Democrataidd, Neuadd y Sir, Caerfyrddin neu
Bresenoldeb o bell drwy Zoom

**COFNODION**

| **Yn bresennol** | |
|---|---|
| **Enw** | **Sefydliad** |
| Andrew Cornish (Is-gadeirydd y BGC ac yn cadeirio'r cyfarfod) | Coleg Sir Gâr |
| Cyng. Linda Evans | Cyngor Sir Caerfyrddin (yn cynrychioli'r Cynghorydd Darren Price) |
| Noelwyn Daniel | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Mydrian Harries | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Phil Kloer | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Huwel Manley | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Cyng. Kim Broom | Ar ran Awdurdod Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac yn cynrychioli'r Cyng. Elwyn Williams |
| Jo McCarthy | Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Amy Richmond-Jones | Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Barry Liles | Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant |
| Marie Mitchell | Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gar |
| Andrew Charles | Llywodraeth Cymru |
| Kelvin Barlow | Y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
| Catherine Mealing-Jones | Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (ar lein) |

| **Yn bresennol** | |
|---|---|
| **Enw** | **Sefydliad** |
| Gwyneth Ayers | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Llinos Evans | Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Kate Harrop | Cyngor Sir Caerfyrddin |

**1. Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau**

| **Ymddiheuriadau** | |
|---|---|
| **Enw** | **Sefydliad** |
| Cyng. Darren Price | Cadeirydd ac Arweinydd Cyngor Sir Gâr |
| Cyng. Elwyn Williams | Awdurdod Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru |

| | |
|---|---|
| Uwch-arolygydd Clark Jones-John | Heddlu Dyfed-Powys |
| Cassandra Bennett | Adran Gwaith a Phensiynau (cynrychiolydd newydd ar y Bwrdd) |

## 2. Cofnodion a Materion yn Codi

Cytunwyd fod y cofnodion o gyfarfod 19 Ionawr 2023 yn gofnod cywir.

Arweiniodd Kate Harrop y Bwrdd drwy'r log gweithredu gan nodi'r pwyntiau canlynol:

- Atgoffwyd aelodau'n garedig i enwebu cyswllt o ran defnydd o dir yn gynaliadwy (cam 131)
- Cadarnhawyd fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi rhannu manylion y cynllun Grant Cymunedau Cydnerth gyda Helen Morgan (cam 156).

## 3. Diweddariad Cynllun Llesiant

Cylchredwyd copi o'r Cynllun Llesiant ymlaen llaw.

Yn dilyn cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Ionawr a chau'r cyfnod ymgynghori a chynnwys y cyhoedd, nodwyd fod y gwaith wedi mynd rhagddo i ddatblygu fersiwn terfynol o'r Cynllun Llesiant.

Esboniwyd fod y Cynllun Llesiant wedi ei ddiweddaru o ganlyniad i'r camau canlynol:

- Adborth gan aelodau BGC mewn gweithdy a gynhaliwyd ar 20 Rhagfyr 2022
- Sesiynau adborth penodol gydag aelodau BGC
- Adborth o'r arolwg ar-lein (107 o ymatebion)
- Adborth o'r cyfleoedd Cyfranogiad
- Adborth gan y partneriaid statudol
- Adborth gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Adborth gan Lywodraeth Cymru
- Adborth gan Fforwm Strategol y Gymraeg.

Diolchwyd i bawb a gyfrannodd tuag at yr ymgynghoriad a thrwy'r gwaith ymgysylltu.

Mae'r prif newidiadau yn y Cynllun fel a ganlyn:

- Amcan wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu ein gwaith ar gymunedau dwyieithog - "Helpu i greu cymunedau diogel, amrywiol, dwyieithog".
- Gostyngiad yn nifer y camau i ddarparu ffocws clir ar ble y gall y BGC ychwanegu gwerth.
- Ychwanegwyd gwybodaeth am Gyfrifiad 2021.

Esboniwyd y byddai'r Cynllun Llesiant yn symud ymlaen i'w gymeradwyo gan y pedwar partner statudol a bod dyddiadau wedi'u cadarnhau ar gyfer cyflwyno yn yr wythnosau nesaf, cyn dod yn ôl a'r fersiwn terfynol at y BGC ar 25 Ebrill.

Nodwyd yr amserlen yma ar gyfer y partneriaid statudol:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (30 Mawrth)
- Cyngor Sir Gâr (Cabinet – 11 Ebrill)
- Cyfoeth Naturiol Cymru (12 Ebrill)
- Gwasanaeth Tan ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (17 Ebrill).

Ychwanegwyd fod y newidiadau yn cadw ffocws clir ar lle gall y BGC ychwanegu gwerth at y gwaith sydd eisoes yn digwydd ar draws y cyrff sy'n aelodau a bydd y cam nesaf yn cynnwys datblygu cynlluniau gweithredu manwl gyda chamau CAMPUS er mwyn gwireddu'r amcanion.

Cafwyd trafodaeth ymhlith yr aelodau a nodwyd ei bod hi'n galonogol gweld fod 79% o'r ymatebwyr wedi cytuno gyda'r Amcanion Llesiant.

Cafwyd trafodaeth am allu prosiectau megis Prosiect Tyisha i gael eu trafod mewn cyfarfodydd BGC a nodwyd bod cyfle i gryfhau'r cysylltiadau hyn tra'n cydnabod mai nid y BGC fydd o reidrwydd yn arwain ar brosiectau tebyg.

| Y CAM GWEITHREDU | |
|---|---|
| Cytunwyd i eglurhau yr amserlen o ran gweithredu o fewn y Cynllun Llesiant ac awgrymwyd y dylid defnyddio Cam 1, 2 a 3 (yn lle tymor byr, canolig a hir) | Tîm Cefnogi BGC |
| Cytunwyd i symud y cam ynghylch Strategaeth Hybu'r Gymraeg fel cam tymor-byr gan ymestyn dros gyfnod y Cynllun Llesiant | Tîm Cefnogi BGC |
| Cytunwyd i eglurhau yr hyn a olygir wrth Strategaeth lleoedd 'Gwyrdd a Glas' o fewn y Cynllun Llesiant | Tîm Cefnogi BGC |

**4. Datblygu Cynllun Ardal y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol**

Croesawyd Kelvin Barlow (KB) i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Sefydlwyd y Bartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru i oruchwylio'r broses barhaus o drawsnewid ac integreiddio gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant yn ardal Gorllewin Cymru. Mae'r Bartneriaeth yn dwyn ynghyd y tri awdurdod lleol yng Ngorllewin Cymru (Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Ceredigion a Chyngor Sir Penfro), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda a chynrychiolwyr o'r trydydd sector a'r sector annibynnol. Mae Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol wedi cael ei sefydlu i ateb gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae defnyddwyr gwasanaethau gofal a chymorth yn eistedd ar y Bwrdd hefyd, ynghyd â chynrychiolydd gofalwyr.

Manylodd KB ar strwythur Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru a'r prif feysydd gwaith a wnaed yn ystod y 12 mis diwethaf, gan gynnwys yr Asesiad Poblogaeth a'r Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad.

Esboniodd KB y prif themâu ar draws y grwpiau poblogaeth sy'n rhan o'r Asesiad Poblogaeth, sef:

- Mynediad at wasanaethau yn y gymuned
- Aros am asesiad a diagnosis
- Cyfathrebu, ar draws gwasanaethau a sefydliadau
- Angen defnyddio Technoleg Ddigidol
- Ffocws ar Atal a Lles
- Gweithlu
- Pontio rhwng gwasanaethau
- Gwell canlyniadau trwy Gydgynhyrchu

O ran blaenoriaethau'r Cynllun Ardal, nodwyd y meysydd canlynol:

- Cefnogi Pobl i Reoli eu Lles eu hunain
- Cefnogi Pobl i aros yn agosach at adref
- Sicrhau bod y gwasanaethau cywir ar gael i ateb y galw
- Meddu ar Weithlu Sefydlog a Gwydn
- Cynllunio a darparu ein gwasanaethau gyda phobl sy'n eu defnyddio

Nodwyd sgyrsiau diweddar o ran sut y gall y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gydweithio, er mwyn adlewyrchu lle mae'r partneriaid ehangach yn medru atal yn rhagweithiol (e.e. y Gwasanaeth Tân).

Esboniwyd fod y Cynllun Llesiant yn adnabod yr angen i gryfhau y berthynas rhwng y ddau gorff.

Mae Cadeirydd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn awyddus i osgoi dyblygu a sicrhau ein bod yn gweithio ar draws ffiniau. Cytunwyd bod angen cryfhau y berthynas rhwng y ddau faes deddfwriaeth yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles.

Cafwyd trafodaeth am y diffiniad o 'Atal' a sut gallwn ni sicrhau fod partneriaid yn medru cyfrannu yn bositif ac yn adeiladol.

Cafwyd trafodaeth am y gweithlu a sut y mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn edrych ar hyn at y dyfodol. Mae yna fwrdd penodol yn edrych ar hyn ond mae dealltwriaeth glir fod angen gweithlu er mwyn gwireddu y cynlluniau uchelgeisiol sydd ganddynt.

Bydd yna waith penodol gyda ysgolion, cynlluniau prentisiaethau ac mae yna waith er mwyn datblygu ar y cyd e.e. gofal cymdeithasol a llesiant ar y cyd. Nodwyd hefyd y bydd gwaith o ran harmoneiddio amodau swyddi o ran oriau gwaith a chyflog ayyb.

Ychwanegodd KB fod y Bwrdd yn edrych ar ystod y ddarpariaethau ac opsiynau er mwyn gwella llesiant a gwytnwch pobl. Bydd y prosiectau Atal yn cyfateb i tua traean o'r buddsoddiad ac mae cyfle i edrych ar sut y mae'r buddsoddiad yn cael ei neilltuo.

Gofynnodd Andrew Cornish am Addysg a'i rôl o fewn y Cynllun Ardal? Nodwyd fod Cyfarwyddwr Addysg Cyngor Sir Gâr yn eistedd ar y bartneriaeth ond byddai Addysg Uwch a Phellach y tu allan i'r drafodaeth hynny.

Mae'r craffu ar waith y BPRh yn mynd yn ôl at strwythurau llywodraethiant y cyrff unigol ac felly i'r pwyllgorau craffu o fewn y cynghorau sir.

Nodwyd bod y wefan yn cael ei diweddaru ond mae'r data sy'n cael ei gyhoeddi 'yn fyw' a gobeithir ei fod yn ddefnyddiol ar gyfer holl bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

| Y CAM GWEITHREDU | |
|---|---|
| Cytunwyd y byddai Kelvin Barlow yn gwirio aelodaeth y BPR er mwyn ystyried bod cynrychiolaeth o'r sector Addysg Uwch a Phellach. | Kelvin Barlow |
| Cytunwyd y bydd Kelvin Barlow a Noelwyn Daniel yn cael sgwrs bellach o ran Gwasanaethau Digidol. | Kelvin Barlow/Noelwyn Daniel |
| Anogwyd Aelodau'r BGC i gwblhau'r arolwg byr o ran y camau nesaf Cynllun Ardal y BPR https://forms.office.com/e/4VVxskMxQQ | Pawb |
| Cytunwyd i ail-sefydlu presenoldeb y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yng nghyfarfodydd y BGC. | Kelvin Barlow / Prif swyddog |
| Cytunwyd i gylchredeg y cyflwyniad BPR i bawb yn dilyn y cyfarfod. | Tîm Cefnogi BGC. |

**5. Cefnogaeth Llywodraeth Cymru i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus - cyllid rhanbarthol 2023-24 i 2025-26**

Nododd Kate Harrop fod Llywodraeth Cymru yn dyrannu arian ar gyfer y clwstwr o Fyrddau Gwasanaeth yn rhanbarthol. Derbyniwyd cadarnhad Llywodraeth Cymru y bydd y cyllid ar gael am dair mlynedd.

Dyrennir £69,803 ar gyfer y rhanbarth, gyda ffocws bendant ar ymgysylltu cymunedol a sicrhau argaeledd platfform data penodol.

Nodwyd bod y canlynol o fewn y cynlluniau gwaith ar gyfer y cyllid

- Creu a chynnal Swydd Data Ranbarthol
- Cyllid ar gyfer ffi blynyddol y platfform data, Gorwel
- Gweithgareddau ymgysylltu cymunedol lleol

Oherwydd yr amserlen gymeradwyo, trafodwyd dyraniad y cyllid gyda Chadeirydd y BGC cyn dyddiad y cyfarfod.

| Y CAM GWEITHREDU | |
|---|---|
| Cylchredeg dolen y Swydd Data Ranbarthol BGC pan y bydd y fyw ar wefan Cyngor Ceredigion | Tîm Cefnogi BGC |

**8. Unrhyw Fater Arall**

Nodwyd diolch i’r Tîm Cefnogi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am ei gwaith wrth lunio’r Cynllun Llesiant.

**7. Dyddiadau cyfarfodydd yn y dyfodol**

- 25 Ebrill 2023 (2pm)

Cytunwyd y byddai'r cyfarfod hyn yn cael ei gynnal wyneb yn wyneb oherwydd yr eitemau ar yr agenda a oedd i'w trafod.